

Ofcom

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

Clirio gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig oddi ar y band 700 MHz

Cefnogaeth i berchnogion offer gwneud rhaglenni a
digwyddiadau arbennig

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi:

20 Ebrill 2017

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn
Ymatebion:

13 Gorffennaf 2017

Gair am y ddogfen hon

Ym mis Hydref 2016 roedden ni wedi cyhoeddi ein penderfyniad rheoli sbectrwm i weithio tuag at symud y rhaglen i glirio 700 MHz yn ei blaen 18 mis a rhyddhau'r sbectrwm ar gyfer gwasanaethau symudol ym mis Mai 2020 yn hytrach nag ym mis Medi 2021. O'r herwydd, rydyn ni wedi rhoi hysbysiad i berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig sy'n gweithredu yn y band 700 MHz ac ni fyddant yn cael mynediad i sbectrwm yn y band hwn o 1 Mai 2020 ymlaen.

Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu cyllido cynllun grantiau i gefnogi perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig sy'n gorfod gwagio'r band 700 MHz yn gynharach na'r disgwyl. Rydyn ni wedi cytuno â'r Llywodraeth i ddylunio a rhedeg cynllun grantiau i ddosbarthu'r arian.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi ein cynigion ar gyfer sut dylid gweithredu'r cynllun grantiau, gan gynnwys y meini prawf cymhwys y dylai'r hawlwyr eu diwallu er mwyn cael eu hystyried ar gyfer cyllid.

Cynnwys

Adran

1	Crynodeb gweithredol
2	Cyflwyniad
3	Meini prawf cymhwyso
4	Egwyddorion y cerdyn cyfraddau
5	Y broses hawlio
6	Y camau nesaf

Tudalen

1
3
7
11
15
19

Atodiad

1	Ymateb i'r ymgynghoriad hwn
2	Egwyddorion ymgynghori Ofcom
3	Cwestiynau'r ymgynghoriad

Tudalen

20
23
25

Adran 1

Crynodeb gweithredol

Cynllun grantiau i gefnogi perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig

- 1.1 Ym mis Hydref 2016 roedden ni wedi cyhoeddi ein penderfyniad (“Datganiad 2016”) i weithio tuag at symud y rhaglen clirio 700 MHz yn ei blaen 16 mis a chwblhau'r rhaglen erbyn mis Mai 2020. Roeddem felly wedi rhoi hysbysiad ffurfiol i berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn datgan y byddai mynediad i'r band 700 MHz yn dod i ben ac na fyddem yn awdurdodi ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig ar ôl y dyddiad hwnnw.
- 1.2 Fel rhan o'i chyllid ar gyfer y rhaglen i glirio 700 MHz, mae'r Llywodraeth wedi cytuno i ariannu cynllun grantiau i gefnogi perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig a fydd yn gorfod gwagio'r band 700 MHz yn gynharach na'r disgwyl. Rydyn ni wedi cytuno â'r Llywodraeth i ddylunio a rhedeg cynllun grantiau i ddsbarthu'r cymorth y bydd yn ei ddarparu. O dan a1(5) o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 mae gan Ofcom bŵer i roi grantiau at ddibenion rheoli sbectrwm, yn amodol ar gael cydsyniad gan Drysorlys EM.¹
- 1.3 Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu y bydd yn rhoi cyllid i berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig sy'n gyfystyr â gwerth gweddilliol yr offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig sy'n gweithredu yn y band 700 MHz y bydd angen iddynt ei newid adeg clirio.
- 1.4 Wrth ystyried ein cynigion ar gyfer sut byddem yn cyfrifo'r cerdyn cyfraddau² rydyn ni'n disgwyl ei bod yn debyg y byddai perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig sy'n gymwys i gael cyllid yn debyg o gael cyllid sy'n gyfystyr i tua 47% o gostau adnewyddu eu hoffer cymwys gydag offer cyfatebol, y byddant yn hawlio amdano o dan y cynllun grantiau.
- 1.5 Rydyn ni'n cynnig, er mwyn ystyried bod hawl wyr yn gymwys i gael cyllid, mae'n rhaid iddynt:
 - 1.5.1 **NAILL AI** fod wedi dal trwydded yn y band 700 MHz yn ystod y 2 flynedd diwethaf (hy rhwng 17 Hydref 2014 a 17 Hydref 2016)

NEU rhaid iddynt allu dangos tystiolaeth mae modd ei dilysu bod eu busnes yn seiliedig ar logi offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn hytrach na'i ddefnyddio ac felly nid oes angen trwydded arnynt, hy byddent yn cael eu hystyried fel 'llogwr heb nodweddion ychwanegol';
 - 1.5.2 Bydd hawl wyr ond yn gallu hawlio am offer sy'n berchen iddyn nhw;
 - 1.5.1 Rhaid i'r offer yr hawlir amdano fod yn gweithio;

¹ Dan adran 1(7) o Ddeddf 2006.

² Bydd y cerdyn cyfraddau'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo faint o gyllid y mae gan bob hawllydd cymwys hawl iddo o dan y cynllun grantiau. Mae Adran 4 yn egluro sut bydd y cerdyn cyfraddau'n cael ei ddatblygu.

Clirio gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig oddi ar y band 700 MHz - Cefnogaeth i berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig

- 1.5.2 Rhaid i'r offer yr hawlir amdano fod â dros 50% o'i ystod tiwnio yn y rhan o'r band 700 MHz na fydd ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig ar ôl y clirio; a
 - 1.5.3 Rhaid i'r offer yr hawlir amdano fod wedi cael ei brynu cyn i ni gyhoeddi'r hysbysiad yn Natganiad 2016.
- 1.6 Ar ben hynny, mae Ofcom nawr yn ymgynghori ynghylch parhau i ddefnyddio'r band gwarchod 694 MHz – 703 MHz ar gyfer gwasanaethau gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig. Gallai canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw effeithio ar leoliad ffin y sbectrum (naill ai 694 MHz neu 703 MHz) ac felly categorïau'r offer y bydd y rhaglen clirio yn effeithio arnynt a'u cymhwysedd i gael cyllid o dan y cynllun grantiau.
- 1.7 Mae'r ymgynghoriad hwn yn egluro manylion y rhesymwaith dros ein cynigion ynghylch dyluniad y cynllun grantiau a'r meini prawf cymhwyso.

Adran 2

Cyflwyniad

Cefndir

- 2.1 Ar hyn o bryd mae'r sbectrwm rhwng 470 MHz a 790 MHz yn cael ei ddefnyddio gan Deledu Daearol Digidol (DTT), gwasanaethau Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)³ a Dyfeisiau Gofod Gwyn (WSDs).⁴ Ym mis Tachwedd, roeddem wedi cyhoeddi datganiad ('Datganiad 2014')⁵ yn rhoi ein penderfyniad i glirio'r gwasanaethau hyn o'r rhan hon o'r sbectrwm rhwng 694 MHz a 790 MHz ('band 700 MHz') ac ail-leoli'r amleddau ar gyfer data symudol.
- 2.2 Mae rhaglen waith i weithredu'r penderfyniad hwn yn mynd rhagddi ('raglen clirio'r 700 MHz'). Ym mis Hydref 2016 roedden ni wedi cyhoeddi datganiad arall ('Datganiad 2016')⁶ a oedd yn rhoi ein nod o gwblhau rhaglen clirio 700 MHz erbyn mis Mai 2020.
- 2.3 Yn Natganiad 2016 roeddem wedi rhoi hysbysiad ffurfiol i berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn datgan y byddai mynediad i'r band 700 MHz yn dod i ben ar 1 Mai 2020 felly ni fyddem yn awdurdodi ei ddefnyddio ar ôl y dyddiad hwn. O'r herwydd, bydd tua 300 – 600 o berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn gorfod adnewyddu cyfanswm cyfun o hyd at 20,000 darn o offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig gydag offer sy'n gweithio mewn sbectrwm arall.
- 2.4 Mewn datganiad blaenorol a gyhoeddwyd yn 2010 ('Datganiad 2010') roeddem wedi dweud na fyddai mynediad defnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig i'r band 700 MHz 'ddim yn cael ei ddiraddio am resymau rheoli sbectrwm oni bai ein bod wedi rhoi pum mlynedd o rybudd, na fyddai'n cael ei sbarduno cyn mis Medi 2016'. Roedd datganiad 2010 yn dynodi pan fydd diogelwch deiliadaeth yn cael ei dorri am resymau rheoli sbectrwm a bod hyn yn arwain at golled i (rai) defnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (ee y rheini sy'n berchen ar offer ac y bydd angen iddynt ei adnewyddu yn gynt na'r disgwyl), y gallent ddisgwyl rhywfaint o iawn, a fyddai'n cael ei asesu ar y pryd, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol.
- 2.5 Mae'r amserlen ar gyfer clirio yn golygu y bydd yn rhaid i ddefnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig wagio'r band erbyn mis Mai 2020 – 16 mis cyn diwedd y cyfnod diogelwch deiliadaeth. O'r herwydd, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu darparu cyllid i gefnogi (rhai) perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig sy'n gorfod gwagio'r band 700 MHz yn gynharach na'r disgwyl. Yn benodol, mae wedi penderfynu y bydd yn rhoi cyllid i berchnogion offer

³ Mae'r term 'Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig' yn cyfeirio at ddyfeisiau radio (ee microffonau di-wifr, monitorau clust a 'talkback intercoms' sy'n cael eu defnyddio mewn gweithgareddau fel darlledu, casglu newyddion, digwyddiadau cymunedol, cynyrchiadau theatr a chyngherddau).

⁴ Mae dyfeisiau gofod gwyn yn ddyfeisiau newydd arloesol sy'n gallu adnabod a defnyddio bylchau nad ydynt wedi cael eu defnyddio o'r blaen yn y bandiau amledd.

⁵ Datganiad 2014: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0024/46923/700-mhz-statement.pdf

⁶ Datganiad 2016: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0031/92659/Maximising-the-benefits-of-700-MHz-clearance-Statement.pdf

gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig sy'n gyfystyr â gwerth gweddilliol yr offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig sy'n gweithredu yn y band 700 MHz y bydd angen iddynt ei newid adeg clirio.

2.6 Rydyn ni wedi cytuno â'r Llywodraeth y bydd Ofcom yn llunio cynllun grantiau i ddosbarthu'r arian hwn. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y cynllun grantiau hwn yn lansio ganol 2019, tua blwyddyn cyn cwblhau'r rhaglen clirio 700 MHz. Yn yr ymgynghoriad hwn rydyn ni'n rhoi ein cynigion ar gyfer sut byddwn ni'n dylunio ac yn gweithredu'r cynllun grantiau, yn amodol ar gael cydsyniad gan Drysorlys EM sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud grantiau.⁷

2.7 Mae'r ddogfen wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae gweddill yr adran hon yn rhoi trosolwg o'r fframwaith cyfreithiol rydyn ni'n ymgynghori ynddo;
- Mae Adran 3 yn rhoi ein cynigion ar gyfer y meini prawf cymhwysio y bydd yn rhaid i hawlwy'r eu diwallu er mwyn cael defnyddio'r cynllun grantiau;
- Mae Adran 4 yn trafod y dull gweithredu rydyn ni'n cynnig ei ddilyn wrth gyfrifo hawliau cyllido;
- Mae Adran 5 yn rhoi ein cynigion ar gyfer sut bydd y broses hawlio yn gweithio; ac
- Mae Adran 6 yn rhoi ein camau nesaf.

Y cyd-destunol cyfreithiol

Dyletswyddau Ofcom

Dyletswyddau a phwerau penodol Ofcom sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm

2.8 Mae cyfrifoldebau Ofcom ar gyfer rheoli sbectrwm wedi cael eu gosod yn bennaf mewn dwy Ddeddf Seneddol sy'n rhoi swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau penodol arnom mewn perthynas â sbectrwm (a'r sectorau eraill rydyn ni'n eu rheoleiddio): Deddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf 2003') a Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006.⁸

2.9 Ymysg ein swyddogaethau a'n pwerau mewn perthynas â sbectrwm mae darparu amleddau i'w defnyddio ar gyfer dibenion penodol a rhoi hawliau defnyddio drwy drwyddedau telegraffiaeth ddi-wifr ac esemptiadau trwydded. Maent hefyd yn cynnwys y pŵer i wneud grantiau os ydym yn credu y byddai gwneud hynny'n debyg o hyrwyddo defnyddio sbectrwm yn effeithlon yn y DU ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr neu reoli'r defnydd hwnnw'n effeithlon. Gallwn roi grantiau i'r rheini sy'n dal trwyddedau telegraffiaeth ddi-wifr ac unigolion eraill ar delerau ac amodau rydyn ni'n

⁷ Ac a allai, petai Trysorlys EM yn dewis, gael ei roi fel cydsyniad parhaol ar gyfer gwneud grantiau sy'n diwallu gofynion penodol.

⁸ Mae'r Fframwaith Rheoleiddio Cyffredinol Ewropeaidd ar gyfer cyfathrebiadau electronig (yn benodol y Gyfarwydddeb Fframwaith a'r Gyfarwydddeb Awdurdodi) yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol cyffredinol ar gyfer sut dylid awdurdodi a rheoli defnyddio sbectrwm yn y DU ac mae'n ceisio cytgordio rheoleiddio rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebiadau electronig ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

credu sy'n briodol. Rhaid cael cydsyniad gan Drysorlys EM i wneud grantiau o'r fath ac ar gyfer y telerau ac amodau perthnasol.

- 2.10 Ein prif ddyletswyddau, sydd wedi'u gosod o dan Ddeddf 2003, wrth gyflawni ein swyddogaethau ac wrth weithredu ein pwerau, ydy hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, pan fo'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth. Drwy wneud hynny, mae'n rhaid i ni (ymysg pethau eraill) sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau a bod ystod eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig ar gael ledled y DU. Rhaid i ni hefyd ystyried pa mor ddymunol ydy hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol; pa mor ddymunol ydy hybu buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol; pa mor ddymunol ydy hyrwyddo argaeledd a defnydd gwasanaethau trosglwyddo data cyflym ledled y Deyrnas Unedig; ac anghenion a diddordebau gwahanol, i'r graddau y mae defnyddio'r sbectrwm electromagnetig ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr dan sylw, pawb sy'n dymuno ei ddefnyddio.
- 2.11 Ar ben hynny, wrth gyflawni ein swyddogaethau sbectrwm, mae gennym ddyletswydd dan adran 3 o'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i ystyried yn benodol: (i) i ba raddau y mae'r sbectrwm ar gael i'w ddefnyddio neu i'w ddefnyddio ymhellach ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr, (ii) y galw am ddefnydd o'r sbectrwm hwnnw ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr a (iii) y galw sy'n debyg o godi yn y dyfodol ar gyfer defnyddio'r sbectrwm hwnnw ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr. Mae gennym hefyd ddyletswydd, yn benodol, i ystyried pa mor ddymunol ydy hyrwyddo: (i) rheoli a defnyddio'r sbectrwm yn effeithlon ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr, (ii) y manteision economaidd a'r manteision eraill a allai godi o ddefnyddio telegraffiaeth ddi-wifr, (iii) datblygu gwasanaethau arloesol a (iv) cystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebiadau electronig.
- 2.12 Mae'r cynigion rydyn ni'n eu nodi yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r dyletswyddau hyn. Yn benodol, mae'r cynigion yn cefnogi ein penderfyniad i ddarparu'r band 700 MHz ar gyfer defnydd mwy gwerthfawr ar gyfer data symudol, yn unol â'r ddyletswydd i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau. Maen nhw'n ein helpu i hybu argaeledd a defnydd yn y band hwnnw o'r gwasanaethau trosglwyddo data cyflym hynny ar yr un pryd â helpu i gynnal defnyddio sbectrwm ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig.
- 2.13 Hynny yw, rydyn ni wedi penderfynu y byddai gwasanaethau data symudol yn gwneud defnydd mwy gwerthfawr o'r band 700 MHz. Er mwyn clirio'r band hwnnw ar gyfer defnydd o'r fath, mae angen cael gwared â'i argaeledd ar gyfer defnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig.⁹
- 2.14 Fodd bynnag, ymysg ystyriaethau eraill, rydyn ni'n cydnabod y galw am sbectrwm ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig a'r manteision sy'n deillio o hynny. Yn yr un modd, ac yn arbennig o bwysig, roedd gan ddefnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig ddiogelwch deiliadaeth yn y band hwnnw ac y gallent gael colled y gallant ddisgwyl rhywfaint o iawn amdano pan fyddant yn berchen ar offer nad ydynt yn gallu ei ddefnyddio mwyach o ganlyniad i benderfyniadau clirio Ofcom.
- 2.15 Yn yr amgylchiadau penodol hyn, efallai ei bod hi'n briodol talu grantiau. Gallent ddiogelu buddiannau perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig perthnasol a'u hwyluso i barhau i ddarparu gwasanaethau gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (a chynnal y manteision sy'n deillio ohonynt) pan fydd

⁹Yn amodol ar unrhyw ymgynghori pellach y gallai Ofcom ei wneud ynghylch defnydd posibl y band gwarchod 694 – 703 MHz.

ganddynt esemptiad penodol o ddaliadaeth sbectrwm diogel, ar yr un pryd â helpu i sicrhau manteision defnyddio'r band 700 MHz ar gyfer data symudol. Gallwn ddefnyddio'r pwerau sydd gennym o dan adran 1(5) o'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i wneud grantiau pan fydd gwneud hynny'n debyg o hyrwyddo defnyddio sbectrwm yn effeithlon. Mae'r meini prawf cymhwysu rydyn ni'n eu cynnig yn deillio o'r dadansoddiad hwn. Byddai unrhyw grantiau a wnawn yn unol â'r meini prawf hynny yn amodol ar gael cydsyniad gan Drysorlys EM fel sy'n angenrheidiol o dan adran 1(7) o'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr.

Asesiad o'r effaith

- 2.16 Mae Adran 7 o Ddeddf 2003 yn darparu pan fyddwn ni'n cynnig gwneud unrhyw beth at ddibenion neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a'i bod hi'n ymddangos i ni fod y cynnig yn bwysig, mae'n rhaid i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu'r cynnig, neu ddatganiad sy'n rhoi ein rhesymau ar gyfer meddwl nad oes angen cynnal asesiad o'r fath. Pan fyddwn ni'n cyhoeddi asesiad o'r fath, mae'n rhaid i randdeiliaid gael cyfle i gyflwyno sylwadau i ni ynghylch y cynnig y mae'r asesiad yn berthnasol iddo. Mae asesiadau o'r effaith yn ffordd werthfawr o asesu'r dewisiadau gwahanol ar gyfer rheoleiddio a dangos pam y dewiswyd y dewis a ffeirir. Maent yn arfer gorau wrth lunio polisïau. Fel mater o bolisi, mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal asesiadau o'r effaith ar gyfer y rhan fwyaf o'n penderfyniadau polisi. I gael rhagor o wybodaeth am ein hagwedd at asesiadau o'r effaith, edrychwch ar y canllawiau, "Arferion gorau wrth lunio polisïau: Dull Ofcom o gynnal asesiad effaith", sydd ar ein gwefan.
- 2.17 Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn y ddogfen hon yn asesiad o'r effaith yn unol â'r diffiniad yn adran 7 o Ddeddf 2003.

Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

- 2.18 Mae statud yn mynnu bod Ofcom yn asesu effaith bosibl ei holl swyddogaethau, polisïau, prosiectau ac ymarferion ar y grwpiau cydraddoldeb canlynol: oed, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn diwallu ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr ni waeth beth ydy eu cefndir neu eu hunaniaeth.
- 2.19 Daw'r cynigion sydd yn y ddogfen hon o benderfyniad cynharach i glirio'r band 700MHz. Wrth gyrraedd y penderfyniad hwnnw rydyn ni wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o'r blaen er mwyn deall a allai newid defnydd 700MHz effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp penodol o ddefnyddwyr neu godi materion penodol i grwpiau sy'n cael eu diogelu o dan gyfreithiau cydraddoldeb.
- 2.20 Mewn perthynas â'r cynigion sydd wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn, nid ydym wedi canfod unrhyw effaith sy'n gwahaniaethu yn ein cynigion mewn perthynas â'r grwpiau cydraddoldeb a nodwyd.

Adran 3

Meini prawf cymhwyso

- 3.1 Yn yr adran hon rydyn ni'n rhoi ein cynigion ar gyfer pwy ddylai fod yn gymwys ar gyfer y cynllun grantiau. Fel sy'n cael ei egluro uchod, y rhesymau dros dalu grantiau ydy pan fydd perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn cael colledion o ganlyniad i golli mynediad i'r band 700 MHz cyn mis Medi 2021 a heb gael pum mlynedd o rybudd, gallant ddisgwyl cael rhywfaint o iawn. Yn yr amgylchiadau penodol hyn, byddai talu grantiau'n cyd-fynd â'r swyddogaethau a'r dyletswyddau sydd wedi cael eu disgrifio. Yn unol â hynny, dyma'r egwyddor arweiniol rydyn ni wedi'i defnyddio wrth asesu pwy ddylai fod yn gymwys ar gyfer y cynllun grantiau:
- 3.1.1 Dylent fod yn berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig sy'n gweithredu'n gyfreithlon ac a fydd yn cael colled oherwydd penderfyniad Ofcom y dylent golli mynediad i'r band 700 MHz ym mis Mai 2020.
- 3.2 Er mwyn rhoi'r egwyddor honno ar waith, rydyn ni'n cynnig, er mwyn ystyried bod hawlwr yn gymwys i gael cyllid, mae'n rhaid iddynt:
- 3.2.1 **NAILL AI** fod wedi dal trwydded yn y band 700 MHz yn ystod y 2 flynedd diwethaf (hy rhwng 17 Hydref 2014 a 17 Hydref 2016),
- NEU** rhaid iddynt allu dangos tystiolaeth mae modd ei dilysu bod eu busnes yn seiliedig ar logi offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn hytrach na'i ddefnyddio ac felly nid oes angen trwydded arnynt, hy byddent yn cael eu hystyried fel 'llogwr heb nodweddion ychwanegol'. Byddai hyn yn sicrhau bod hawlwr ond yn gallu cael gafael ar gyllid o'r cynllun grantiau os ydynt yn gweithredu'n gyfreithiol.
- 3.2.2 **Bydd hawlwr ond yn gallu hawlio am offer sy'n berchen iddyn nhw:** Byddai'n rhaid darparu tystiolaeth o hyn drwy wybodaeth ychwanegol gan gynnwys o leiaf un o'r canlynol: derbynebaw, cofnodion ar gofrestr asedau¹⁰ neu ddogfennau yswiriant a bydd hyn yn sicrhau bod cyllid ond yn cael ei roi i berchnogion cyfreithlon offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig.
- 3.2.3 **Rhaid i'r offer yr hawlir amdano fod yn gweithio:** Ni allai offer sydd wedi torri ddarparu'r gwasanaethau gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig rydyn ni'n ceisio eu diogelu, ac felly ni fyddai'r newid yn nefnydd y band 700 MHz yn arwain at gollod a allai arwain at ddyfarnu grant. Yn ein barn ni, ni fyddai talu grant yn yr amgylchiadau hynny'n sicrhau gwerth am arian a ni fyddai modd ei gyfiawnhau.

¹⁰ Mae'n rhaid bod Cyfrifydd Siartredig wedi ardstio cofrestru asedau/stocrestru.

- 3.2.4 **Rhaid i'r offer y cyflwynir hawliad ar ei gyfer gael mwy na 50% o'i ystod tiwnio yn y band 700 MHz:**¹¹ Rydyn ni'n egluro ein rhesymeg dros y cynnig hwn yn nes ymlaen yn yr adran hon.
- 3.2.5 **Rhaid i'r offer yr hawliwr amdano fod wedi cael ei brynu cyn i ni gyhoeddi'r hysbysiad yn Natganiad 2016:** Ein safbwynt dros dro yw pan fydd defnyddiwr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig wedi prynu offer ar ôl i ni gyhoeddi'r hysbysiad ac felly roedd yn gwybod na fyddai modd defnyddio'r offer neu na fyddai'n gweithio cyn mis Medi 2021, nid yw ein penderfyniad i newid y defnydd o'r band 700 MHz wedi arwain at golled y mae modd rhoi grant ar ei gyfer. Unwaith eto, yn ein barn dros dro ni, ni fyddai talu grant yn yr amgylchiadau hynny'n sicrhau gwerth am arian a ni fyddai modd ei gyfiawnhau.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n meini prawf arfaethedig ar gyfer pwy ddylai fod yn gymwys ar gyfer y cynllun grantiau?

Ystod tiwnio offer cymwys

- 3.3 Uchod rydyn ni wedi cynnig y dylai ymgeiswyr ond allu hawlio mewn perthynas ag offer sydd â dros 50% o'i ystod tiwnio yn y band 700 MHz. Yma rydyn ni'n egluro'r rhesymeg dros y cynnig hwn.
- 3.4 Ni fydd y clirio'n effeithio ar bob offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig sy'n gweithredu rhwng 470 a 790 MHz yn yr un ffordd. Felly, yn unol â'r egwyddor gyffredinol ar gyfer cymhwys fel y nodir uchod, rydyn ni'n cynnig y dylai'r meini prawf cymhwys ar gyfer offer fod yn seiliedig ar gollu defnyddioldeb yr offer o ganlyniad i'r clirio. Mae'r graddau y bydd colled o'r fath yn digwydd yn dibynnu ar ystod tiwnio offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig a lle mae'n gweithredu yn y band 700 MHz.
- 3.5 Yn ein Datganiad 2014 roedden ni wedi nodi tri chategori o offer roedden ni'n meddwl y byddai'r clirio yn effeithio arnynt. Sef:
- 3.5.1 Offer sydd ond yn gweithredu yn y band 700 MHz;
- 3.5.2 Offer sydd ond yn gweithredu o dan 694 MHz; ac
- 3.5.3 Offer sy'n gweithredu'n rhannol yn y band 700 MHz ac yn rhannol o dan 694 MHz.¹²
- 3.6 Rydyn ni nawr yn ystyried pob un o'r categorïau offer hyn yn ei dro. Drwy wneud hynny, rydyn ni'n nodi bod Ofcom nawr yn ymgynghori ynghylch parhau i ddefnyddio'r band gwarchod 694 MHz – 703 MHz ar gyfer gwasanaethau gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig. Os caiff y band gwarchod ei ddefnyddio ar gyfer y diben hwnnw, byddai'r ffiniau sy'n cael eu disgrifio yn y paragraff blaenorol yn symud yn unol â hynny.
- 3.7 Hynny yw, byddai offer yn y categori cyntaf yn offer sydd ond yn gweithredu yn y band 700 MHz yn uwch na 703 MHz. Byddai offer yn yr ail ond yn gweithredu o dan 703 MHz a byddai'r trydydd yn offer sy'n gweithredu'n rhannol yn y band 700 MHz ac

¹¹ Yn amodol, fel yr eglurir isod, ar ein hymgynghoriad ynghylch defnyddio'r rhannau perthnasol o'r band – y band gwarchod 694 MHz – 703 MHz yn benodol – ar gyfer gwasanaethau gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig.

¹² Yn amodol ar gasgliad yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r band gwarchod 9 MHz

uwch 703 MHz ac yn rhannol o dan yr amledd hwnnw. Dylid darllen y cynigion yn y paragraffau canlynol yn unol â hynny.

Offer sydd ond yn gweithredu yn y band 700 MHz

- 3.8 Mae clirio'r band 700 MHz yn golygu y bydd yr offer hwn yn colli ei ystod tiwnio yn llwyr ac felly ni fydd modd ei ddefnyddio. Rydyn ni'n cynnig, o ganlyniad, y byddai'r offer hwn yn gymwys i gael cyllid.

Offer sydd ond yn gweithredu o dan 694 MHz

- 3.9 Mae Ofcom yn cydnabod y gallai clirio 700 MHz mewn egwyddor effeithio ar y math hwn o offer mewn rhai lleoliadau. Mae hyn oherwydd bod gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn gweithredu mewn sbectrwm darlledu rhyngddalennog (amleddau yn y sbectrwm sydd wedi cael eu dyrannu i deledu daearol digidol nad ydynt yn cael eu defnyddio gan deledu daearol digidol mewn lle penodol). Fel roeddem wedi'i egluro yn ein Datganiad 2014, bydd clirio yn golygu bod angen i ni ailgynllunio'r rhwydwaith teledu daearol digidol yn y sbectrwm darlledu sydd ar ôl rhwng 470 a 694 MHz. Bydd yr ailgynllunio'n arwain at newidiadau i'r amleddau mae teledu daearol digidol yn eu defnyddio yn y band 470-694 MHz a thrwy hynny bydd yn achosi newidiadau lleol i'r sbectrwm rhyngddalennog sydd ar gael ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig. Mewn rhai achosion, gall hyn leihau cyfran ystod tiwnio microffon di-wifr mae modd ei ddefnyddio mewn lleoliad penodol. Er yr effaith hon, nid ydym yn credu y dylai perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig perthnasol allu cyflwyno cais am grant mewn perthynas ag offer yn y categori hwn.
- 3.10 Ein safbwynt dros dro yw bod y rhan fwyaf o offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn y categori hwn yn debyg o gael ystod tiwnio digon eang i ymdopi â newidiadau yn y mynediad sbectrwm rhyngddalennog o dan 694 MHz. Fel rheol mae gan offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig ystodau tiwnio sy'n fwy na 24 MHz, ac mae gan y rhan fwyaf ystodau sy'n fwy na 40 MHz ac mae rhai yn fwy na 100 MHz. Gan na fydd aseiniadau amleddau teledu daearol digidol yn cael eu gwneud fel rheol ar bob sianel gyfagos olynol ar drosglwyddydd, bydd digon o ddefnyddioldeb ar ôl ar draws ystod tiwnio'r offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, hy hyd yn oed ar ôl ail gynllunio teledu daearol digidol bydd digon o ofod gwyn ar gael ym mhob ardal darpariaeth teledu daearol digidol. Po fwyaf fydd yr ystod tiwnio y mwyaf fydd y defnyddioldeb. Yn yr amgylchiadau hyn, ein barn dros dro yw hyd yn oed pan roedd newidiadau lleol mewn argaeledd sbectrwm rhyngddalennog yn lleihau ystod tiwnio ddefnyddiol offer, y byddai offer yn gyffredinol yn cadw digon o ddefnyddioldeb iddo barhau i gyflawni ei ddiben.
- 3.11 Hyd yn oed os bydd newidiadau mewn argaeledd sbectrwm o dan 694 MHz yn golygu nad yw darn penodol o offer yn addas i'r diben mewn un lleoliad, byddem yn disgwyl y byddai dal modd ei ddefnyddio mewn ardaloedd eraill o'r wlad lle mae ffurfweddiad sbectrwm rhyngddalennog yn wahanol. O ganlyniad, os bydd cwmni llogi yn berchen ar y darn o offer dan sylw, byddant yn gallu parhau i'w logi allan. Ar ben hynny, bydd modd gwerthu'r offer ar y farchnad eilaidd (oherwydd bydd modd ei ddefnyddio mewn lleoliadau eraill yn y DU). Felly, os ydy'r perchennog yn defnyddio'r offer mewn lleoliad sefydlog, dylent allu gwireddu gwerth gweddilliol eu hoffer drwy ei werthu ymlaen.
- 3.12 Ar ben hynny, mewn rhai achosion mae'n bosibl defnyddio rhywfaint o offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig o dan do hyd yn oed pan fydd yn gweithredu ar yr

un amledd â'r amblecs teledu daearol digidol. Bydd hyn yn lleihau effaith y newidiadau mewn mynediad i sbectrwm o dan 694 MHz ar y gymuned gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig. Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod na fydd hi'n bosibl gweithredu dan do i gyfran o ddefnyddwyr sy'n gweithredu ar yr un sianel â theledu daearol digidol. Felly, wrth wneud ein dadansoddiad, rydyn ni wedi rhoi llai o bwys ar bosibilrwydd defnyddio'r un sianel â theledu daearol digidol o dan do.

- 3.13 Oherwydd y rhesymau a nodwyd uchod, ein barn dros dro yw na fydd y newidiadau yn ffurfweddiad sbectrwm rhyngddalennog o dan 694 MHz sy'n gysylltiedig â chlirio yn arwain at golled sylweddol i berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig. O ganlyniad, rydyn ni'n cynnig eithrio offer sydd ond yn gweithredu o dan 694 MHz o'r cynllun grantiau.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effaith y clirio ar offer sydd ond yn gweithredu o dan 694 MHz?

Offer sy'n pontio'r band 700 MHz a'r sbectrwm o dan 694 MHz

- 3.14 Mae gan rywfaint o offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig ystod tiwnio sy'n pontio'r band 700 MHz a sbectrwm yn y band 470-694 MHz. Bydd colli'r band 700 MHz yn golygu gostyngiad yn ystod tiwnio ddefnyddiol yr offer hwn. Mewn rhai achosion gallai hyn arwain at ostyngiad yn nefnyddioldeb yr offer. Er mwyn asesu graddau hyn, roedden ni wedi edrych ar ystodau tiwnio offer gan y ddau wneuthurwr offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig mwyaf (yn ôl y gyfran o'r farchnad). Mae gan offer sy'n pontio'r ddau fand naill ai ond ag ychydig o MHz yn y band 700 MHz, neu mae ganddo fwy na 50% o'i ystod tiwnio yn y band 700 MHz. Mae'n debyg na fydd llawer o effaith oherwydd clirio ar yr offer sydd ond ag ychydig o MHz yn y band 700 MHz (a chofio'r pwyntiau rydyn ni wedi'u gwneud uchod ynghylch effaith newidiadau i argaeledd sbectrwm rhyngddalennog o dan 694 MHz). Fodd bynnag, rydyn ni'n credu ei bod hi'n debygol iawn y bydd offer sydd â dros 50 % o'i ystod tiwnio yn y band 700 MHz yn gweld gostyngiad sylweddol mewn defnyddioldeb o ganlyniad i golli mynediad i'r band 700 MHz. Felly gallai perchnogion offer o'r fath ddiodef colled sylweddol o ganlyniad i golli mynediad i'r band 700 MHz yn gynnar. Ar y sail honno, rydyn ni'n cynnig os oes dros 50% o ystod tiwnio offer sy'n pontio'r band 700 MHz ac o danodd yn tiwnio i'r band 700 MHz yna dylai fod yn gymwys o dan y cynllun grantiau.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o effaith y clirio ar offer sy'n pontio'r band 700 MHz a'r sbectrwm o dan 694 MHz?

Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth y dylid llunio ffin arall ar gyfer ystod tiwnio offer?

Amgylchiadau eithriadol

- 3.15 Rydyn ni hefyd yn cynnig, pan fydd ymgeisydd yn methu â diwallu'r meini prawf cymhwyso ond eu bod yn credu bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu y dylent serch hynny gael eu cynnwys yn y cynllun grantiau, mae modd iddynt gyflwyno eu hachos i ni. Rydyn ni'n cynnig y byddem yn ystyried ceisiadau o'r fath fesul achos.

Adran 4

Egwyddorion y cerdyn cyfraddau

- 4.1 Yn yr adran hon rydyn ni'n egluro sut rydyn ni'n bwriadu datblygu'r cerdyn cyfraddau a'r egwyddorion rydyn ni'n cynnig eu defnyddio wrth wneud hynny.
- 4.2 Wrth ystyried faint o offer rydyn ni'n disgwyl y bydd ymgeiswyr yn hawlio amdano fel rhan o'r cynllun grantiau, nid ydym yn credu y byddai'n ymarferol asesu pob achos yn unigol o ran y lefel o gyllid sydd i'w roi ar gyfer pob darn unigol o offer. Yn lle hynny, rydyn ni'n cynnig datblygu cerdyn cyfraddau sy'n rhestru pob model o offer rydyn ni'n disgwyl a fydd yn gymwys ar gyfer y cynllun grantiau a nodi faint o gyllid a fydd ar gael mewn perthynas â phob model.

Ein dull gweithredu trosfwaol ar gyfer cyfrifo lefelau cyllido

- 4.3 Fel sy'n cael ei egluro yn adran 2, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu rhoi cyllid i randdeiliaid sy'n gyfystyr â gwerth gweddilliol offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig adeg y clirio. Er mwyn cyfrifo faint o gyllid a ddyfernir mewn perthynas â math penodol o offer, rydyn ni'n cynnig defnyddio'r fformiwla ganlynol.

$$F_i = RC_i \left(1 - \frac{A}{L} \right)$$

Pan mai F_i ydy'r cyllid ar gyfer pob i darn o offer, RC_i ydy cost gyfredol adnewyddu'r model hwnnw o'r offer, A ydy oed yr offer adeg clirio ac L ydy oes ddisgwyliedig ased yr offer.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r fformiwla sy'n cael ei chynnig i amcangyfrif lefel y cyllid?

Ein dull gweithredu ar gyfer casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i fwydo i'r cyfrifiad hwn

- 4.4 Er mwyn datblygu'r cerdyn cyfraddau, bydd angen i ni felly gynhyrchu rhestr gynhwysfawr o'r modelau o offer sain gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig sy'n gweithredu yn y band 700 MHz ac sy'n cael eu defnyddio heddiw. Byddwn ni hefyd angen gwybodaeth am bris adwerthu'r offer hwn. Er mwyn gwneud hyn, rydyn ni'n cynnig defnyddio cyfuniad o:
 - 4.4.1 canlyniadau arolwg defnyddwyr offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig ('arolwg offer 2013') a gynhaliwyd gennym yn 2013 ac a oedd yn sail i'n Datganiad 2014.
 - 4.4.2 gwybodaeth gan wneuthurwyr offer; a
 - 4.4.3 cyngor gan arbenigwyr yn y diwydiant (gan gynnwys ein harbenigwyr mewnol ein hunain).

- 4.5 Bydd hefyd angen i ni gasglu gwybodaeth am oes ased ac oed ased offer. Rydyn ni'n trafod sut rydyn ni'n bwriadu gwneud hyn isod.

Oes ased

- 4.6 Bydd oes ased offer yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau fel ansawdd yr offer, faint mae wedi cael ei ddefnyddio, lefel y cynnal a chadw ac ym mha amgylchedd cafodd ei ddefnyddio, ymysg pethau eraill.
- 4.7 Rydyn ni'n cydnabod yn ymarferol ei bod hi'n debygol y bydd oes ased yn wahanol ar gyfer gwahanol fathau o offer a gwahanol fathau o ddefnyddwyr. Fodd bynnag, ein barn dros dro ni yw na fyddai'n bosibl gwybod yn union faint y byddai pob darn unigol o offer wedi para os na fyddai'r clirio'n digwydd.
- 4.8 Roedden ni wedi asesu oes ased offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn ein datganiad Awst 2010 a oedd yn ymwneud â chlirio Sianel 69¹³. Ar yr adeg honno, roeddem yn gweld, ar gyfartaledd, bod perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn amcangyfrif mai oes eu hoffer oedd 16.8 o flynyddoedd. Ar y llaw arall dywedodd gwneuthurwyr yr offer fod gan yr offer oes o naill ai 10 neu 20 mlynedd. Ar sail y dystiolaeth hon fe ddaethom i'r casgliad mai 15 mlynedd fyddai'r oes briodol i'w defnyddio ar gyfer cyllido.
- 4.9 Yn ein harolwg offer 2013 roeddem wedi gofyn i berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig am ddyddiad prynu eu hoffer a'r dyddiad pan roedden nhw'n disgwyl ei adnewyddu¹⁴. O'r data a ddarparwyd ar gyfer yr arolwg, mae'r oes ased cyfartalog canlyniadol yn tua 10.5 o flynyddoedd, gyda'r oes ased yn amrywio o 3 i 18 o flynyddoedd a thua 72% o'r offer yn cael ei gategoreiddio fel offer ag oes ased o 10 mlynedd.
- 4.10 Rydyn ni'n credu bod yr wybodaeth a roddwyd ar gyfer arolwg 2013¹⁵ ynghylch y dyddiad adnewyddu disgwyliedig yn debyg o fod yn geidwadol. Ar ben hynny, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw newidiadau mewn technoleg gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig nac yn arferion gweithio'r diwydiant ers datganiad Sianel 69 2010 a fyddai wedi arwain at newidiadau sylweddol yn oes ased cyfartalog offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig.
- 4.11 Felly rydyn ni'n cynnig defnyddio oes ased cyfartalog o 15 mlynedd wrth gyfrifo'r hawliadau am gyllid yn y cerdyn cyfraddau.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu ar gyfer cyfrifo oes ased?

Cwestiwn 7: Ydych chi'n gwybod am unrhyw ddatblygiadau a fyddai'n golygu bod data o arolwg offer 2013 neu ddatganiad Sianel 69 yn 2010 yn debyg o gamliwio oes gyfartalog ased?

¹³ Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/46551/statement.pdf


¹⁴ Cafodd yr wybodaeth am y dyddiad adnewyddu disgwyliedig ond ei roi ar gyfer tua hanner yr holl offer a oedd yn cael ei drafod yn yr arolwg.

¹⁵ Edrychwch ar 12: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0025/28492/consultation-future-use-700MHz-band.pdf

Oed ased

- 4.12 Byddai cyfrifiad manwl gywir o'r hawliad am gyllid ar gyfer pob darn o offer cymwys yn gofyn am wybodaeth gywir ynghylch oed pob darn o offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig y cyflwynir hawliad ar ei gyfer fel rhan o'r cynllun grantiau.
- 4.13 Fodd bynnag, ar sail ein profiad gyda'r cynllun cyllido Sianel 69¹⁶, efallai na fydd gan gyfran sylweddol o'r hawlwyd y dogfennau sydd eu hangen i brofi pa mor hen ydy eu hoffer. O'r herwydd, ein barn dros dro yw na fyddai'n ymarferol asesu pob achos yn unigol o ran oed pob darn o offer y cyflwynir hawliad amdano.
- 4.14 Felly, er mwyn cyfrifo hawliadau am gyllid, rydyn ni'n cynnig amcangyfrif oed cyfartalog pob offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig cymwys y mae angen ei adnewyddu o ganlyniad i glirio 700 MHz. Rydyn ni wedyn yn cynnig y byddwn yn defnyddio'r cyfartaledd hwn fel mewnbwn i'r cyfrifiad o hawliadau am gyllid.
- 4.15 Rydyn ni'n cydnabod y byddai'r dull gweithredu arfaethedig hwn yn oramcangyfrif neu'n tanamcangyfrif lefel y cyllid. Byddai perchenogion offer sy'n hŷn na'r cyfartaledd yn cael mwy o gyllid nag y byddent, os bydden ni wedi gallu asesu oed ased fesul achos; yn groes i hynny, bydd perchnogion offer sy'n fwy diweddar na'r cyfartaledd yn cael llai o gyllid nag y byddent wedi'i gael fel arall. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu dod o hyd i ddull gweithredu hyfyw yn lle hwn. Ar ben hynny, fel mae ffigur 4.1 yn ei ddangos, mae arolwg offer 2013 yn awgrymu bod cyfran fawr iawn o'r offer sy'n cael ei ddefnyddio wedi cael ei brynu yn 2011/2012 (tua'r amser y cafodd sianel 69 ei chlirio). Byddai natur grynodedig dosbarthiad dyddiadau prynu'r offer yn awgrymu bod cyfran yr offer sydd naill ai'n hŷn o lawer neu'n fwy diweddar o lawer na'r cyfartaledd yn weddol gyfyngedig.

Ffigur 4.1. Dosbarthiad offer sampl yn ôl blwyddyn prynu



¹⁶ Edrychwch ar Adran 4: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/46551/statement.pdf

- 4.16 Roedd yr arolwg offer yn awgrymu yn 2013 bod oed cyfartalog offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig ychydig dros 2.5 o flynyddoedd¹⁷. Os ydyn ni'n tybio bod yr holl offer wedi cael ei adnewyddu 15 mlynedd ar ôl iddo gael ei brynu (sy'n cyd-fynd â'r amcangyfrif o'r oes ased cyfartalog rydyn ni wedi'i nodi uchod), nad yw perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig wedi ehangu eu stoc o offer yn sylweddol ers 2013 a bod yr offer a ddaeth i ben rhwng 2013 a heddiw wedi cael ei ddisodli gan offer newydd, yna byddai'r data o'r arolwg yn dynodi, ar gyfartaledd, bydd offer sy'n gymwys ar gyfer y cynllun tua 8.5 oed erbyn y dyddiad pan fydd yn rhaid i ddefnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig wagio'r band (2020). Rydyn ni'n cynnig defnyddio'r amcangyfrif hwn yn y cyfrifiad cyllido sy'n cael ei ddisgrifio uchod.
- 4.17 Os ydyn ni'n defnyddio amcangyfrifon o oes gyfartalog ased ac oed cyfartalog ased fel sy'n cael ei drafod uchod, byddem yn disgwyl y byddai'r ymgeiswyr yn cael cyllid sy'n cyfateb i tua 47% o bris adwerthu'r offer cymwys roedden nhw'n hawlio amdano o dan y cynllun.

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â defnyddio oed ased cyfartalog er mwyn amcangyfrif yr hawl i gael arian? Os nad, oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer dull gweithredu arall?

Cwestiwn 9: Ydyn ni'n gywir i dybio na fydd gan gyfran fawr o berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig dystiolaeth o pryd roedden nhw wedi prynu eu hoffer?

Cwestiwn 10: Ydy'r data yn arolwg offer 2013 yn rhoi sail resymol dros gyfrifo oed cyfartalog offer? Os nad, oes gennych chi ffordd arall o gasglu'r data perthnasol i wneud y cyfrifiad hwn?

Cyllid ar gyfer addasu offer

- 4.18 Mewn rhai achosion, efallai y bydd perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn gallu addasu eu hoffer yn hytrach na'i newid. Rydyn ni'n cynnig cyllido cost yr addasiadau hyn ar yr amod na fydd cost addasu'r offer yn fwy na'r cyllid a fyddai ar gael i'w adnewyddu.

¹⁷ Roedd yr oed cyfartalog ar gyfer y sampl y darparwyd dyddiad prynu ar eu cyfer yn 2.54 o flynyddoedd. Roedd yr arolwg ond yn casglu gwybodaeth am y flwyddyn prynu. Rydyn ni felly wedi defnyddio blynyddoedd llawn i amcangyfrif yr oed.

Adran 5

Y broses hawlio


- 5.1 Yn yr adran hon rydyn ni'n rhoi ein cynigion ar gyfer sut bydd y broses hawlio yn gweithio, gan gynnwys pa dystiolaeth y bydd angen i'r rheini sy'n cymryd rhan yn y cynllun grantiau ei chyflwyno i gefnogi eu ceisiadau. Wrth gynnig y prosesau hyn, rydyn ni wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng sicrhau bod:
- Y broses hawlio yn ddigon cadarn er mwyn ein galluogi i sicrhau ein bod yn cyflawni egwyddor gyffredinol y cynllun grantiau a chyflawni gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus; a
 - Nid yw'r broses hawlio yn rhoi baich weinyddol anghymesur ar weithredwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig ac mae'n ein galluogi i brosesu hawliadau'n gyflym (a thrwy hynny lleihau unrhyw effaith andwyol ar lif arian rhanddeiliaid).

Gweinyddu'r cynllun grantiau

- 5.2 Mae Ffigur 1 yn dangos sut rydyn ni'n cynnig y dylai'r broses o ddelio â hawliadau weithio. Rydyn ni'n disgrifio gwahanol gamau'r broses yn fanylach ym mharagraffau 5.6 – 5.13.
- 5.3 O dan a1(5) o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 mae gan Ofcom bŵer i roi grantiau am resymau rheoli sbectrwm. Mae modd i Ofcom gyflawni'r swyddogaeth hon neu mae modd i Ofcom benodi contractwr trydydd parti i wneud hynny.¹⁸ Nid yw Ofcom wedi penderfynu eto a yw am weinyddu'r cynllun grantiau ei hun neu benodi gweinyddwr cynllun trydydd parti. Yn y paragraffau isod rydyn ni'n nodi ein cynigion ar gyfer sut byddai hawliau'n cael eu trin ac a fydd y cynllun grantiau yn cael ei gyflawni gan Ofcom neu gan contractwr trydydd parti. Ni waeth a gaiff y rôl hon ei chyflawni gan Ofcom neu gan drydydd parti, mae gweddill y ddogfen hon yn sôn am y broses o ddelio â hawliadau yn cael ei chyflawni gan 'weinyddwr y cynllun'.

¹⁸ Pa contractwr fyddai'n prosesu talu grantiau ar sail y meini prawf y penderfynir arnynt ac a ddefnyddir gan Ofcom ac, ym mhob achos, yn amodol ar gael cydsyniad gan Drysorlys EM.

Ffigur 1 – Cynllun dangosol o'r broses hawliadau gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig



Cofrestru

- 5.4 Cyn lansio'r cynllun grantiau rydyn ni'n cynnig cynnal proses gofrestru lle byddai angen i berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig gofrestru eu bod yn bwriadu gofyn am gyllid drwy'r cynllun. Byddai'r cofrestru yn digwydd yn fuan ar ôl i'r cynllun grantiau agor. Fel rhan o'r broses gofrestru, byddai angen i'r darpar hawlwy'r ymrwymo i delerau ac amodau'r cynllun grantiau; rhestru'r offer maen nhw'n dymuno hawlio amdano a nodi'n gyffredinol cyn pen pa gyfnod y byddent yn hoffi i'w hawliad gael ei brosesu. Byddai'r broses gofrestru yn ein helpu i gyllidebu a chynllunio ar gyfer gweinyddu'r cynllun grantiau.

Dilysu hawliadau a chyfrifo dyfarniadau

- 5.5 Ar ôl i'r cynllun grantiau agor yn ffurfiol rydyn ni'n disgwyl y byddai hawlwy'r yn cyflwyno eu hawliad i weinyddwr y cynllun.¹⁹ Byddai'n rhaid i'r hawlwy'r ildio'r offer maent yn dymuno hawlio amdano. Bydd hyn yn caniatáu i weinyddwr y cynllun gyflawni archwiliadau priodol i sicrhau bod yr offer yr hawlir amdano yn gweithio a'i fod yn gweithredu yn yr ystod tiwnio sy'n berthnasol er mwyn cael hawlio cyllid.
- 5.6 Yn ogystal ag ildio eu hoffer, rydyn ni'n cynnig y byddai'n rhaid i'r hawlwy'r ddarparu tystiolaeth eu bod yn berchen ar yr offer y mae'r hawliad yn berthnasol iddo. Mae'r math o dystiolaeth y byddem yn disgwyl i hawlwy'r ei darparu i gefnogi eu cais yn o leiaf un o'r canlynol gan gynnwys:
- 5.6.1 Derbynebaw o brynu'r offer;
 - 5.6.2 Cofnodion cofrestr asedau sy'n nodi'r offer a/neu pryd cafodd yr offer ei brynu;
 - 5.6.3 Dogfennau yswiriant perthnasol.
- 5.7 Ar ben hynny, byddai angen i gwmnïau llogi didrwydded hefyd allu dangos tystiolaeth mae modd ei dilysu bod eu busnes yn seiliedig ar logi offer yn hytrach na'i ddefnyddio ac felly nid oes angen trwydded arnynt. Byddai'r wybodaeth y gallai hawlwy'r o'r fath ei darparu yn cynnwys y canlynol, ond nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr:
- 5.7.1 Cytundebau rhentu, archebion, anfonebau neu contractau;
 - 5.7.2 Dogfennau cwmni – ee memorandumw ac erthyglau cymdeithasiad sy'n datgan amcanion y cwmni; a
 - 5.7.3 Deunyddiau marchnata (ee pamffledi, hysbysebion a chofnodion mewn cyfeiriaduron ac ati).
- 5.8 Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan yr hawlwy'r, byddai gweinyddwr y cynllun yn archwilio ac yn dilysu bod yr hawlwy'r yn diwallu'r meini prawf cymhwyso.
- 5.9 Pan fydd gweinyddwr y cynllun yn fodlon bod yr hawliad yn diwallu'r holl feini prawf angenrheidiol, byddai'n cyfrifo cyfanswm y dyfarniad drwy ddefnyddio'r cerdyn

¹⁹ Naill ai Ofcom neu Weinyddwr Cynllun trydydd parti.

cyfraddau. Ar ben hynny, bydd 20%²⁰ o gyllid yn cael ei dalu i hawlwy'r nad ydynt wedi cofrestru at ddibenion TAW, er mwyn cydnabod na fyddant yn gallu gwrthbwysu na hawlio TAW yn ôl ar eitemau neu wasanaethau maent yn eu prynu.

- 5.10 Byddai gweinyddwr y cynllun wedyn, yn amodol ar y gofyniad i gael cydsyniad Trysorlys EM, yn trefnu talu'r trwyddedai gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig priodol neu, yn achos cwmni llogi didrwydded, i'r endid a oedd wedi cofrestru gyda'r cynllun grantiau.

Taliadau mewn perthynas ag addasu offer

- 5.11 Rydyn ni hefyd yn cynnig y byddai angen i hawlwy'r sy'n addasu yn hytrach nag adnewyddu offer ddarparu tystiolaeth mae modd ei dilysu bod eu hoffer wedi cael ei addasu, yn ogystal â diwallu'r holl feini prawf cymhwyso eraill. Gallai hyn gynnwys derbynebaw sy'n dangos bod ystod tiwnio'r offer wedi cael ei addasu ac sy'n dangos cost y gwaith addasu sydd wedi cael ei wneud. Bydd cyllid ar gyfer addasu offer ar gael drwy'r cynllun grantiau, ar yr amod nad yw'r gost yn fwy na chost adnewyddu offer, fel sy'n cael ei nodi ar y cerdyn cyfraddau.

Casgliadau dros dro cyffredinol

- 5.12 Am y rhesymau sydd wedi cael eu nodi yn adrannau cynharach y ddogfen hon, ein barn dros dro ni yw y byddai ein cynlluniau ar gyfer y cynllun grantiau yn ffordd briodol a chymesur i Ofcom wneud penderfyniadau a dosbarthu cyllid y mae'r Llywodraeth wedi penderfynu ei ddarparu.
- 5.13 Rydyn ni'n cynnig mai un o effeithiau'r cynigion hynny yw y byddai perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn gymwys am gyllid mewn perthynas â (dim ond) colledion a gânt yn anorfod oherwydd penderfyniad Ofcom i glirio'r band 700 MHz cyn mis Medi 2021. Yn ein barn ni, effaith arall fyddai cefnogi clirio'r band a helpu i wireddu manteision defnyddio'r band hwnnw ar gyfer gwasanaethau data symudol a pharhau i ddefnyddio sbectrwm ar gyfer gwasanaethau gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig. Byddai pob un o'r effeithiau hyn yn cyd-fynd â swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau Ofcom fel y nodir yn y ddogfen hon. Rydyn ni hefyd yn bwriadu meddwl y byddai ein cynigion, o ran cymhwysedd, cyfraddau talu'r grantiau a'r broses ar gyfer hawlio, am y rhesymau a nodir uchod, yn sicrhau gwerth am arian.

Cwestiwn 11: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein cynigion ynghylch sut dylai'r broses ar gyfer delio â hawliadau weithio?

²⁰ Neu beth bynnag fydd y gyfradd TAW safonol adeg prosesu hawliad.

Adran 6

Y camau nesaf

- 6.1 Yn y ddogfen hon rydyn ni wedi rhoi ein cynigion ar gyfer llunio a rhedeg cynllun grantiau i ddsbarthu cyllid i gefnogi perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig a fydd yn gorfod gwagio'r band 700 MHz yn gynt na'r disgwyl.
- 6.2 Bydd ein hymgyngoriad yn dod i ben ddydd lau 13 Gorffennaf 2017. Ar ôl ystyried yr holl ymatebion, rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi datganiad yn nes ymlaen eleni a fydd yn rhoi ein penderfyniad ar y cynigion sydd wedi cael eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn. Yn amodol ar hynny, yn gynnar yn 2018 byddem yn dechrau gweithio ar lunio'r cerdyn cyfraddau. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi fersiwn drafft o'r cerdyn cyfraddau i bobl gyflwyno sylwadau arno yn ystod hanner cyntaf 2018 a fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r cerdyn cyfraddau (a fydd yn adlewyrchu unrhyw sylwadau a ddaw i law) yn ystod ail hanner 2018. Fel sy'n cael ei nodi uchod, rydyn ni'n disgwyl dechrau'r broses gofrestru ym mis Medi 2018 ac rydyn ni'n rhagweld y bydd y cynllun yn dechrau ystyried ceisiadau am grantiau ganol 2019.

Atodiad 1

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut mae ymateb

- A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno'ch safbwyntiau a'ch sylwadau am y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn **5pm, dydd Iau 13 Gorffennaf 2017**.
- A1.2 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/support-pmse-equipment-owners>. Rydyn ni hefyd yn darparu dalen gyflwyno (<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>) ar gyfer ymatebion sy'n cael eu hanfon dros e-bost neu bost; a fydddech chi cystal â llenwi hon er mwyn ein helpu i gynnal eich cyfrinachedd, ac mae'n cyflymu ein gwaith. Nid oes angen i chi wneud hyn os ydych chi'n ymateb drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein.
- A1.3 Os ydy eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fydddech chi cystal â'i anfon dros yr e-bost i UHFSI@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>).
- A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt.
- Spectrum Group
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
- A1.5 Os hoffech chi gyflwyno'ch ymateb mewn fformat gwahanol, (e.e. ffeil sain neu fideo), cysylltwch â Alberto Fernandes ar 020 7981 3000 neu anfonwch neges e-bost i alberto.fernandes@ofcom.org.uk
- A1.6 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.
- A1.7 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A1.8 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad 3. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.
- A1.9 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch ag Alberto Fernandes drwy anfon neges e-bost i alberto.fernandes@ofcom.org.uk

Cyfrinachedd

- A1.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydyn ni'n cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddant yn dod i law.
- A1.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A1.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.13 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use>

Y camau nesaf

- A1.14 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn Ch3 2017.
- A1.15 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/email-updates/>

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A1.16 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.
- A1.17 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Steve Gettings, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Clirio gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig oddi ar y band 700 MHz - Cefnogaeth i berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig

Steve Gettings
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3601

E-bost steve.gettings@ofcom.org.uk

Atodiad 2

Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

- A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

- A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
- A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.
- A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.
- A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom ydy'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.
- A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

- A2.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim byd

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Yr ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau?

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os darperir copi papur)

Atodiad 3

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n meini prawf arfaethedig ar gyfer pwy ddylai fod yn gymwys ar gyfer y cynllun grantiau?

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effaith y clirio ar offer sydd ond yn gweithredu o dan 694 MHz?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o effaith y clirio ar offer sy'n pontio'r band 700 MHz a'r sbectrwm o dan 694 MHz?

Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth y dylid llunio ffin arall ar gyfer ystod tiwnio offer?

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r fformiwla sy'n cael ei chynnig i amcangyfrif lefel y cyllid?

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu ar gyfer cyfrifo oes ased?

Cwestiwn 7: Ydych chi'n gwybod am unrhyw ddatblygiadau a fyddai'n golygu bod data o arolwg offer 2013 neu ddatganiad Sianel 69 yn 2010 yn debyg o gamliwio oes gyfartalog ased?

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â defnyddio oed ased cyfartalog er mwyn amcangyfrif yr hawl i gael arian? Os nad, oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer dull gweithredu arall?

Cwestiwn 9: Ydyn ni'n gywir i dybio na fydd gan gyfran fawr o berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig dystiolaeth o pryd roedden nhw wedi prynu eu hoffer?

Cwestiwn 10: Ydy'r data yn arolwg offer 2013 yn rhoi sail resymol dros gyfrifo oed cyfartalog offer? Os nad, oes gennych chi ffordd arall o gasglu'r data perthnasol i wneud y cyfrifiad hwn?

Cwestiwn 11: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein cynigion ynghylch sut dylai'r broses ar gyfer delio â hawliadau weithio?